# Fersiwn Gryno hawdd ei darllen o Fframwaith ar gyfer Newid ar gyfer Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant




Mae'r ddogfen gryno hon yn egluro rhywbeth a elwir Fframwaith ar gyfer Newid.

Mae'n rhan o Werthusiad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.


Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf ar ffurf [hawdd ei darllen].

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Ddeddf gael ei gwerthuso i sefydlu pa mor effeithiol ydy hi.

# Beth ydy Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?




Mae'r Ddeddf yn ceisio:



Gwneud bywyd yn haws i bobl a'u gofalwyr




Gwneud cyfraith gofal cymdeithasol yn haws i'w defnyddio.



Rhoi llais cryfach a rheolaeth i bobl.



Sicrhau bod pobl yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw i fyw bywyd da.



Yn datgan yr hyn fydd gwasanaethau cymdeithasol yn eu cynnig ledled Cymru.




Yn datgan sut bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill.




Sicrhau y caiff cymunedau gyfle i rannu eu gwybodaeth a'u profiad.




Cadw pobl yn ddiogel rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.




Mae pum egwyddor yn y Ddeddf sy'n arwain yr hyn y mae'n ceisio ei wneud:



1. Atal



2. Llesiant



3. Llais a Rheolaeth



4. Cyd-gynhyrchu



5. Gwaith Amlasiantaethol

## Gwerthuso’r Ddeddf




Mae’n cael ei **gwerthuso** i sefydlu’r modd y mae’r Ddeddf yn cael effaith.




Mae hyn yn golygu bod academyddion a gweithwyr proffesiynol yn siarad â phobl i weld pa mor dda mae’r Ddeddf yn gweithio.





Byddan nhw wedyn yn llunio adroddiad yn dangos pa mor dda mae’r Ddeddf wedi bod yn gweithio yng Nghymru.




Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, datblygwyd yr hyn a elwir yn **Fframwaith ar gyfer Newid**.

Mae’r ddogfen hon yn egluro beth ydy hwnnw.

## Beth ydy'r Fframwaith ar gyfer Newid?




Stori ydy Fframwaith ar gyfer Newid sy'n ceisio egluro'r hyn bydd y Ddeddf yn ei wneud i wella llesiant pobl yng Nghymru.




Mae hyn yn ein helpu i ddeall y dulliau y mae dyletswyddau ac egwyddorion y Ddeddf yn ceisio helpu pobl a'u cymunedau.





Mae'r ddeddf yn ymwneud â synnwyr o lesiant a sut mae pobol yn cael cymorth pan fyddan nhw ei angen.

Mae pum rhan allweddol i'r fframwaith ar gyfer newid:

1. Canllawiau Cyfeirio




Mae hyn yn cyfeirio at y cyfarwyddiadau ar gyfer newid yn y Ddeddf.




Mae'r rhain yn canolbwyntio ar annibyniaeth, llais, diogelu a gwneud gwasanaethau yn hygyrch ac yn hawdd i'w deall.



Mae hwn hefyd yn ffocysu ar rôl fwy ar gyfer sefydliadau a gweithwyr gwirfoddol a all sicrhau bod hawliau pobl yn cael eu parchu.

2. Mewnbynnau





Mae 11 o rannau i'r Ddeddf. Mae'r Fframwaith ar gyfer Newid yn disgrifio'r hyn ddylai fod ar gael er mwyn cynorthwyo amcanion y Ddeddf.




3. Gweithgareddau

Mae rhestr o weithgareddau gofynnol o dan y Ddeddf. Ceir rhagor o fanylion yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.



4. Allbynnau

Pethau ydy'r rhain y bydd y Ddeddf yn eu cyflenwi.




5. Canlyniadau

Y rhain ydy'r newidiadau fydd yn digwydd, gobeithio, oherwydd y Ddeddf.



Mae'r Fframwaith ar gyfer Newid yn help i ddeall y cysylltiadau rhwng y Ddeddf a'i heffaith ar lesiant a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Newid yn ein helpu i ddeall sut orau i werthuso'r Ddeddf.

## Beth ydy prif rannau'r Fframwaith ar gyfer Newid?

Mae'r adran hon yn cynnig enghreifftiau o bethau sy'n cael eu cynnwys ymhob rhan o'r Fframwaith ar gyfer Newid.

## Mewnbynnau



Bod gan weithwyr ym maes gofal cymdeithasol y wybodaeth a'r sgiliau priodol.



Sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cyflawni'r hyn y maen nhw ei addo.




Sicrhau bod gofal cymdeithasol ac asesu yn ffocysu ar yr hyn y mae pobl ei angen.



Helpu gofalwyr i gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.




Cymorth i wella gwasanaethau eiriolaeth.




Helpu i wneud diogelu yn fwy effeithiol.


## Gweithgareddau




Rhaid bod gwybodaeth a chymorth yn hygyrch a phriodol ar gyfer y bobl sy’n defnyddio gwasanaethau.




Asesiadau i ffocysu ar yr hyn y mae’r unigolyn ei angen a cheisio diwallu’r anghenion hynny.




Asesiadau ar gyfer gofalwyr i ganfod y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.




Cynlluniau gofal a chymorth



Gwasanaethau iechyd a gofal i gydweithio mwy.



Cofrestrau o bobl â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw a phobl anabl eraill.




Mwy o wasanaethau atal a gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr.



Gwasanaethau achwynion ac eiriolaeth.

# Allbynnau




Gwasanaethau i ffocysu ar ganlyniadau




Gwasanaethau i gydweithio i gynorthwyo'r unigolyn sydd angen help.




Hawliau dynol i fod yn flaenoriaeth ym maes gwasanaethau cymdeithasol.



Mannau sengl mynediad i wasanaethau.




Y ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i bobl.



Atal ac ymyriad cynnar yn seiliedig ar bobl, eu gofalwyr ac ar yr ardal leol

## Canlyniadau




Pobl yn cael eu cynorthwyo a'u cefnogi yn eu hawliau dynol.




Pobl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.



Pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael eu cynorthwyo wrth dyfu'n oedolion.



Gofalwyr yn cael gwell cymorth.




Cynlluniau gofal yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i bobl.



Sefydliadau i gydweithio'n fwy effeithiol.




Gofal cymdeithasol dan arweiniad y gymuned.



Gwell llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofalwyr a chymorth a hefyd gofalwyr sydd angen cymorth.

# Casgliadau




Mae’r ddogfen hon yn egluro’r dulliau y defnyddir y Fframwaith ar gyfer Newid i arwain gwerthusiad o'r Ddeddf.




Mae’r Fframwaith ar gyfer Newid yn disgrifio cyfeiriad, mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau’r Ddeddf.




Mae’r Fframwaith ar gyfer Newid yn helpu gyda chynllunio’r gwerthusiad.




Bydd y Fframwaith ar gyfer Newid yn parhau i gael ei ddiweddaru wrth i’r gwerthusiad gael ei weithredu.

## Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r:

Athro Mark Llewellyn

Prifysgol De Cymru

01443 483070

mark.llewellyn@southwales.ac.uk

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 38/2019

ISBN: 978-1-83933-127-5